CYNLLUN CADETIAID GWIRFODDOL YR HEDDLU 2019

Annwyl Ymgeisydd

Diolch i chi am ddangos diddordeb yng Nghynllun Cadetiaid Gwirfoddol yr Heddlu gyda Heddlu Dyfed-Powys. Gweler yn atodeg becyn cais sy'n cynnwys:

- Nodiadau Canllaw ar gyfer Cwblhau'r Ffurflen Gais hon
- Ffurflen Gais

Dylech ddychwelyd eich ffurflen gais orffenedig i'r cyfeiriad isod erbyn **Dydd Gwener, 31ain Mai 2019 .**

Y wybodaeth a roddir ar y ffurflen gais yw'r sail ar gyfer ystyried eich addasrwydd cychwynnol ar gyfer y Cynllun rydych chi'n gwneud cais amdano. Bydd cael eich dewis neu beidio â chael eich dewis ar gyfer cyfweliad yn dibynnu ar y wybodaeth a'r dystiolaeth rydych chi wedi rhoi. Gan hynny, dylech sicrhau eich bod chi wedi cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol y gofynnwyd amdani wrth lenwi'r ffurflen gais ar gyfer y cynllun.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ymrwymo'n llwyr i egwyddorion cyfleoedd cyfartal. Gan hynny, rydyn ni'n croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Mae pob penderfyniad ynglŷn â recriwtio'n seiliedig ar asesiad gwrthrychol o bob cais ac addasrwydd pob unigolyn i fod yn rhan o'r cynllun hwn.

Os ydych chi'n profi anhawster wrth lenwi'r ffurflen hon, neu'n ystyried bod gennych anabledd, peidiwch ag oedi i gysylltu â Chydlynydd Cadetiaid Gwirfoddol yr Heddlu drwy e-bost ar cadets@dyfed-powys.pnn.police.uk neu galwch 101 estyniad 23645 am gymorth.

Hoffem gymryd y cyfle hwn i ddymuno'r gorau i chi a'ch cais.

DYCHWELWCH FFURFLENNI CAIS GORFFENEDIG AT:

Cydlynydd Cadetiaid Gwirfoddol yr Heddlu
Pencadlys Heddlu Dyfed-Powys
Blwch Post 99
Llangynnwr
Caerfyrddin
SA31 2PF